COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Rhagfyr 9fed, 2015 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Dylan Llwyd i'w gyfarfod llawn cyntaf fel aelod cyfetholedig dros Ward Aber-soch.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 11eg a 18fed, 2015 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C15/1180/39/LL	Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd yn ei le a llwyfan cysylltiedig – Cwt Glan Môr 34, Borth Fawr, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1187/39/LL	Estyniad deulawr cefn – Creigir Goch, Aber-soch – **Cefnogir**
C15/1194/39/RC	Diwygio 106 Angen Fforddiadwy trwy ddiwygio Cymal 3, 4 a 5 a dileu Atodlen 3 – Tir ger Eglwys Sant Engan, Llanengan **– Penderfynwyd gohirio gan fod angen mwy o wybodaeth am y cais**
C15/1202/39/TP	Creu Gorchymyn Diogelu Coed Dros Dro – Tir rhwng Gilfach Goed a Gorse Bank, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1222/39/CC	Torri coeden – Tir gyferbyn â Land & Sea Aber-soch **– Gwrthodir os bernir ei bod yn ddiogel a chefnogir os nad ydyw. Dylid rhoi amod y plennir coeden yn ei lle os caiff ei thorri**
C15/1260/39/LL	Estyniad ochr unllawr ag ystafelloedd yng ngwagle'r to, estyniad cefn unllawr, ffenestr ddormer i'r to cefn ar gyfer

gwaith trosi gwagle to, ynghyd ag addasiadau i'r edrychiad – Abbotsville, Yr Harbwr, Aber-soch **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Haydn Jones yn nodi y methodd â chysylltu â Gwyn Parry i'w holi os oedd ganddo ddiddordeb cloi'r giât; bwriada ysgrifennu ato. Ychwanegodd y buasai un o'r glanhawyr eraill yn fodlon gwneud.

b) **Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd**
Anfonwyd copïau o'r cytundeb newydd at denant Pen y Mynydd iddo yntau eu dychwelyd at Merfyn Pugh.

c) **Gwefan y Cyngor**
Anfonwyd mwy o ddogfennau ond, nid yw'r wefan yn fyw eto.

ch) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Roberts Ffestiniog.

d) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

- Ni dderbyniwyd gohebiaeth oddi wrth y cwmni datblygu, ond yn dilyn cyfarfod â'r Rheolwr Safle, wrth wirio lleoliad cebl trydan â swyddogion ScottishPower a Freedom Group, ni welai y gwrthwynebid y cais, gan na fyddai'r llwybr yn amharu ar y tai. Gosodwyd darn o'r cebl trydan ar dir y Cyngor (ffin Coed yr Allt) ac, o ganlyniad, anfonir ffurflenni Wayleave ar ei gyfer maes o law.
- Deil y cais cynllunio yn Swyddfa Ddidoli'r Post ym Mhwllheli, gan na chytunai swyddogion yr Adran Gynllunio ddod yno.
- Gofynnodd y contractwr a fyddai modd i'r Cyngor brynu'r deunydd Millboard yn hytrach nag o – cydsyniwyd â'i gais; bwriada ddechrau'r gwaith yn y flwyddyn newydd.

dd) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Ni dderbyniwyd ymateb.

e) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd:

1. Datganiad i gefnogi cais i'r Gofrestrfa Tir eithrio'r llain a drosglwyddwyd gan gyn-berchnogion 20 Maes Awel; fe'i arwyddwyd o flaen cyfreithiwr ym Mhwllheli am ffi o £11.00 ac anfon siec am £40.00 i'r Gofrestrfa Tir – gweler 9. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod
2. cais gan Gyfreithiwr y Cyngor i gadarnhau bod y llain tir a liwiwyd yn binc ar gynllun y Gofrestrfa Tir ar ochr y Cae Chwarae i ffens/gwrych perchennog 23 Maes Awel – cadarnhawyd hynny.

f) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Yn dilyn cynnal y cyfarfod arbennig ar Dachwedd 18fed i drafod yr uchod roedd cyfanswm y toriadau a wnaed yn £9,933,263. Gofynnwyd a fyddai modd eu cyflwyno ar ôl cyfarfod heno, yn hytrach na chynnal cyfarfod arbennig arall, ni dderbyniwyd ymateb ac, felly, cymerir mai 'na' oedd yr ateb.

ff) **Llythyr Ymddiswyddiad – Cyfethol i Sedd Wag Achlysurol yn Ward Aber-soch**
Croesawyd Dylan Llwyd i'w gyfarfod llawn cyntaf.

g) **Cyngor Tref Cricieth – Gwrthwynebiad i Gais Cynllunio**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Gareth Jones, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio – un cyffredinol i bawb a gefnogodd Gyngor Tref Cricieth. Eglura yr edrychir ar y Cynllun Dirprwyo yng nghyd-destun yr hyn a ddigwyddodd yn genedlaethol ers i Ddeddf Gynllunio 2015 ddod yn ddeddf gwlad ym mis Gorffennaf ac, o ganlyniad, ni chredir bod unrhyw gyfiawnhad i addasu'r un cyfredol ar hyn o bryd.

ng) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**
Derbyniwyd gohebiaeth y cynhelir yr arolwg ar Ionawr 31ain.

h) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**
Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Cyril Jones.

i) **Wayforward (Shropshire) Limited – *Proposed Works on Overhead Power Line***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

l) **David Furness – Derlwyn/*Ink Pot***
Anfonwyd e-bost at yr uchod yn mynegi siomedigaeth na fwriada newid yr enw yn ôl i Derlwyn a derbyniwyd ateb y trafoda'r cais eto â'i wraig.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Biniau Halen**
Anghofiwyd ei gynnwys ar raglen cyfarfod arbennig Tachwedd 18fed; penderfynwyd ei drafod yng nghyfarfod mis Ionawr pan drafodir praesept 2016 – 2017.

b) **Rhaglen Waith mis Rhagfyr**
- Claddu cebl trydan ac ailwynebu – bwriedir dechrau'r gwaith ar Ionawr 11eg, 2016 a chauir y ffordd am tua mis – Lôn Golff, Aber-soch (Cilffordd 38); derbyniwyd copi o Rybudd Cyhoeddus Cyngor Gwynedd ar gyfer y gwaith hefyd.
- Traenio a chlytwaith (deuddydd) – Nantrhiwdar.

Cwynion
- Penderfynwyd ysgrifennu i holi pam nad ailwynebwyd lôn Cilan o Gilfach yn unol â Gorchymyn Cyngor Gwynedd ar Hydref 26ain, ynghyd â gofyn

pam na wnaed y gwaith i gyd yr un pryd ym mis Medi pan ailwynebwyd o Fryncelyn i Tai'n Lôn.

- Mynegwyd pryder am y tyllau sydd ar hyd Stad Cae Du, yn arbennig yn y gyffordd â Lôn Engan, ac yn nes at y pentref ar yr olaf o flaen modurdy Glanafon.

c) **Gor-yrru ym Mynytho**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

6. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach i'r un o'r isod, ond adroddwyd y cysylltai Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, â'r Cyngor i drafod ch) Llwybrau 17 a 18 eto:

a) ***Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
b) ***Taith Gerdded Ddigidol***
c) ***Shanty, Pen Bennar***
ch) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
d) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
dd) ***Torri'r Llwybrau***
Derbyniwyd ad-daliad eleni – gweler 9. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.
e) ***Un Llais Cymru (ULlC) –*** i) ***Ramblers Cymru – Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?***

7. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Ymgynghoriad Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft***
Angen sylwadau erbyn Chwefror 15fed, 2016.
ii) ***Ymgynghoriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)***
Copi o ymateb ULlC i'r uchod.
iii) ***Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor – Caernarfon, Rhagfyr 16eg***
Rhaglen a chofnodion yr uchod. Anfonir ymddiheuriadau ar ran y Cyngor.

b) **Llywodraeth Cymru –** ***Ymgynghoriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)***
Cydnabyddiaeth derbyn ymateb i'r uchod.

c) **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Adroddiad Sylwadau y Cynllun Adnau**
Llythyr yn hysbysu'r uchod a chopi, dros bedwar can tudalen, oddi ar wefan y Cyngor, er gwybodaeth – sylwadau diddorol.

ch) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl dan Adran 78(i) – Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch**
Llythyr yn hysbysu yr apeliodd perchennog yr uchod yn erbyn dyfarniad y Cyngor – anfonwyd sylwadau'r Cyngor hwn eisoes.

d) **Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC)**

i) ***Tanysgrifiad Blynyddol*** – penderfynwyd adnewyddu – gweler 9. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

ii) ***Praesept Cynghorau Cymuned Cymru*** – cyhoeddodd Llywodraeth Cymru
restr, er gwybodaeth.

dd) **Heddlu Gogledd Cymru – Gwarchod y Gymdogaeth (www.ourwatch.org.uk)**
Gwybodaeth am un o'r cynlluniau atal trosedd mwyaf llwyddiannus erioed. Anogir unigolion sefydlu cymdeithasau er mwyn cefnogi a datblygu Gwarchod y Gymdogaeth.

e) **Cartrefi Cymunedol Gwynedd – Eiddo ar Osod**
Cais i hysbysu fod tŷ tair llofft ar osod yn 22 Parciau, Mynytho – rhoddwyd posteri yn yr hysbysfyrddau.

f) **Cyng. Wyn Williams – Drych**
Nodyn, er gwybodaeth, na roddir drych newydd arall ger datblygiad Gwesty'r Harbwr hyd nes gorffennir y datblygiad oherwydd y gost – tua £500.00. Ni ellir profi mai cyflenwyr i'r safle sy'n gyfrifol.

ff) **Adran yr Urdd, Mynytho – Cais Brys am Gefnogaeth!**
Derbyniwyd galwad ffôn ac e-bost gan un o'r arweinwyr yn gofyn am gefnogaeth ariannol yn dilyn ailddechrau'r Adran yn ystod y mis diwethaf; penderfynwyd cefnogi a chyfrannu £100.00.

g) **Yr Arolygiaeth Gynllunio – Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl 6 Maes Awel, Aber-soch**
Gwrthodwyd yr apêl.

8. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C14/0814/39/LL	Dymchwel modurdy lolfa haul presennol gan addasu ac ymestyn y tŷ presennol i ffurfio tri tŷ deulawr, ynghyd â chodi dau fflat hunan gynhaliol cysylltiol – Bryn Onnen, Lôn Engan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0883/39/TC	Defnyddio siale fel tŷ – Cae'r Ffynnon, Aber-soch **– Caniatawyd Tystysgrif Cyfreithlon yn unig**
C15/0954/39/LL	Newid defnydd gweddill yr adeilad i ffurfio rhan o siop bresennol, ynghyd â chreu cyfleusterau cysylltiol, swyddfa a lle bwyta staff, ynghyd â mân newidiadau allanol yn cynnwys ffenestr ychwanegol ar edrychiad cefn a chau ffenestri ar yr edrychiad ochr – Roslyn, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/1003/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd yn ei le – Bron Eifion, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

C15/1023/39/LL	Trosi adeilad allanol i fod yn estyniad i'r tŷ, codi estyniad deulawr newydd ar addasiadau a chadw gwaith peirianyddol – Frondeg, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1048/39/LL	Cais ôl-weithredol i gadw sied amaethyddol – Bryn Cethin Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

9. CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Rhagfyr a chostau gweinyddol (Medi – Rhagfyr) y Clerc (Rh/S 001948 a 001949), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Canolfan Gymdeithasol Llanengan – £135.00 (Rh/S 001947 – Llogi'r Ganolfan 2015)
b) Y Gofrestrfa Tir – £40.00 (Rh/S 001950 – Cofrestru Tir 20 Maes Awel, Aber-soch)
c) Canolfan Ffensio a Melin Goed Glasfryn – £385.92 (Rh/S 001951 – Coed Nadolig)
ch) Ted Hughes – £600.00 (Rh/S 001952 – Torri Gwellt ar y Bont a Chongl Lôn Golff)
d) Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – £118.00 (Rh/S 001953 – Tâl Aelodaeth 2016)
dd) Adran yr Urdd Mynytho – £100.00 (Rh/S 001954 – Cyfraniad)
e) PWLB – £2236.72 (D/U – Ail ad-daliad benthyciad at y toiledau)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £6.20 (£5.00 a £1.20)
b) Cyngor Gwynedd – £5994.00 (Ad-daliad Torri Llwybrau)

10. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Nos Fercher, Ionawr 13eg, 2016 am saith o'r gloch